

**Date / Dyddiad: 16/03/18**

## **Cyfleuster biomas y Barri – newid o'r cam cyn comisiynu i weithredu**

### **Beth sydd wedi digwydd hyd yn hyn?**

Roedd gwaith cyn comisiynu yn ymwneud â fflsio pibellau'r system stêm cyn caniatáu stêm i'r tyrbin i ddechrau comisiynu'r system cynhyrchu trydan.

Mae'r tyrbin angen stêm o ansawdd uchel o ran lefelau mwynau, ac mae'r gweithgaredd chwythu hwn yn caniatáu y gwirir ansawdd y stêm ac y profir pibellau er mwyn atal niwed i'r tyrbin pan fydd yn cychwyn gyntaf.

Roedd y stêm yn cael ei ryddhau o fent dros dro yn y boelerdy, tra bo'r profion hyn yn cael eu cwblhau. Ni fydd hyn yn rhan o weithrediadau arferol ar ôl i'r cyfleuster ddechrau gweithredu.

Roedd cynhyrchu stêm yn cynnwys defnyddio generadur diesel. Nid oes pren wedi'i dderbyn na'i losgi ar y safle hwn yn hyn. Er bod y stêm a'r mwg o'r generadur yn weladwy, nid ydynt yn niweidiol i'r amgylchedd nac iechyd pobl.

### **Beth yw'r camau nesaf?**

Mae'r safle bellach yn symud ymlaen i'r cam nesaf o gomisiynu ar y safle.

Bydd hyn yn cynnwys cynyddu pwysedd y stêm gan ddefnyddio'r llosgwyr diesel a throsglwyddo'r stêm pwysedd uchel drwy bibell osgoi'r tyrbin i'r cyddwysyddion, wrth baratoi i gychwyn y tyrbin ar gyfer profion cynhyrchu trydan.

Gall y mewnbwn o wres cynyddol gynyddu dwysedd mwg y prif gorn o dan amodau tywydd penodol, ond mae hyn yn normal a bydd allyriadau o fewn lefelau diogel. Gall profi falfiau diogelwch pwysedd stêm arwain at gyfnodau byr o sŵn trawiadol a

chymylau gweladwy o stêm, ond nid cymaint â'r hyn a welwyd yn gynharach y mis hwn. Gall gweithrediad pibell osgoi arwain at gyfnodau hirach o sŵn uchel sy'n debyg i awyren jet ar uchder. Bydd y cyfnodau hyn yn cael eu lleihau.

Ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, cynhelir profion tyrbîn stêm a generadur yn ystod yr **wythnos sy'n dechrau ddydd Llun, 19 Mawrth 2018**. Ni ddisgwylir i hyn arwain at sŵn amlwg, ond fe all mwg o'r corn fod yn bresennol. Ar ôl cwblhau'r profion hyn, rydym yn deall y bydd cyfnod hir o baratoi'r safle a phrofi cyn tanio'r pren gwastraff cyntaf. Bydd rhagor o fanylion am yr hyn i'w ddisgwyl yn cael eu rhoi cyn y cam comisiynu olaf hwn.

### **Pwy sy'n rheoleiddio beth?**

Mae gan bob cyfleuster diwydiannol mawr yng Nghymru lefel o reoliad deul rhwng **Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Lleol**.

Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru** yn rheoleiddio unrhyw weithgareddau a gwmpesir gan y drwydded. Mae hyn yn cynnwys comisiynu a gweithrediad normal o'r safle nwyeddio, yn ogystal â storio tanwydd pren cysylltiedig.

Bydd **Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir Cyngor Bro Morgannwg** yn parhau i reoleiddio materion sy'n ymwneud â niwsans gan weithgareddau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y drwydded (fel llygredd golau a sŵn adeiladu).

Mae **Tîm Gorfodi Cynllunio'r Cyngor** hefyd yn parhau i fonitro'r gwaith a'r gweithrediadau a wneir ar y safle.

Mae CNC a'r Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir yn gweithio'n agos i sicrhau dull cadarn a chydlynol.

### **Beth ydych chi'n ei wneud ynghylch cwynion am y safle?**

Mae'r ddau reoleiddiwr yn ymchwilio i faterion a gododd ym mis Mawrth yn ymwneud ag arogleuon, llwch a sŵn o dan eu pwerau rheoleiddiol priodol. Mae'r ymholiadau hyn yn parhau ar hyn o bryd.

Mae swyddogion CNC a'r Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir wedi bod allan yn y Barri sawl gwaith yr wythnos ddiwethaf a thros y penwythnos diwethaf ac nid ydynt wedi gallu canfod unrhyw arogleuon o'r safle Biomas rhif 2 yn benodol. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod dau ddigwyddiad o losgi wedi bod yn y doc sy'n cael eu harchwilio ymhellach, a hefyd defnydd cynyddol o losgi pren/glo domestig o ganlyniad i'r tywydd oer a allai fod wedi cyfrannu at arogleuon yn yr ardal. Bydd y ddau reoleiddiwr yn parhau i fod yn bresennol yn yr ardal a dilyn trywydd unrhyw ganfyddiadau.

## **Pa oriau ddylai'r safle fod yn weithredol?**

Nid yw'r drwydded amgylcheddol a gyhoeddwyd gan CNC yn cyfyngu ar oriau gweithredu ar gyfer y gweithgareddau hynny a gwmpesir gan y drwydded.

Serch hynny, mae'r drwydded yn gofyn bod gweithrediadau'n cael eu rheoli er mwyn atal neu leihau effaith oddi ar y safle.

## **Beth allwn ni ei ddisgwyl unwaith y bydd yn gweithredu'n llawn?**

Unwaith y bydd y safle'n gweithredu'n llawn bydd CEM (Monitro Amgylcheddol Parhaus) ar waith. Mae hyn yn cymhwyso offer wedi'i galibro a'i ardystio'n briodol i fonitro allyriadau'n barhaus o'r corn. Bydd CNC yn archwilio eu defnydd o bryd i'w gilydd a rheolaeth o'r offer ei hun, a bydd gwirio'r allyriadau yn rhan o'n rheoliad rheolaidd a pharhaus o'r safle.

Bydd CEMs yn monitro'r prif lygryddion, megis ocsidau nitrogen a llwch, sy'n gysylltiedig â gweithrediadau'r safle drwy'r amser tra bo'r safle'n gweithredu. Caiff gwiriadau cyfnodol gan ddefnyddio personél ac offer ardystiedig eu defnyddio i wirio allyriadau o lygryddion hybrin, megis cromiwm VI ac arsenig. Caiff y monitro a'r gwiriadau hyn eu defnyddio i ddangos bod y safle'n gweithredu o fewn y terfynau allyriadau a ganiateir. Mae'r lefelau hyn wedi eu gosod ar lefel a fydd yn diogelu pobl a'r amgylchedd. Mae'r lefelau'n berthnasol ar adeg rhyddhau o'r prif gorn.

Bydd lefelau'r llygryddion o'r safle ar lefel y tir yn sylweddol is na'r lefelau fydd yn cael eu rhyddhau o'r corn oherwydd cymysgu sy'n gysylltiedig â phatrymau tywydd lleol. Mae cyfrifiadau'n dangos na fydd llygryddion ar lefel y tir yn fwy na safonau neu dargedau ansawdd aer ac ni fydd effeithiau niweidiol ar iechyd yn gysylltiedig ag allyriadau'r safle.

Mae ein rheoleiddiad o'r safle'n cynnwys gwiriadau rheolaidd ar y safle, ymweliadau dirybudd ac archwiliadau wedi'u trefnu fel ei gilydd. Mae gan y drwydded sawl amod ynglŷn â thechnegau gweithredu, monitro allyriadau, rheoli porthiant, rheoli gwastraff a rheoli sŵn ac arogleuon. Rydym hefyd angen cyflwyniadau data o hunan-wiriadau a monitro'r gweithredwr.

Rydym yn cymryd unrhyw weithred o dorri amodau o ddifrif, ac yn gweithredu'n gymesur yn seiliedig ar yr effaith debygol. Gall hyn olygu bod diffyg cydymffurfio yn cael ei sgorio yn erbyn trwydded y gweithredwr, a all arwain at gosb ariannol. Am doriadau mwy difrifol, rydym yn gweithredu yn unol â'n polisi Gorfodaeth ac Erllyn.

## **Sut ydw i'n adrodd pryderon ynglŷn â gweithgarwch ar y safle?**

Er mwyn adrodd llygredd golau neu sŵn adeiladu cysylltwch â'r Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir ar 0300 123 66 96 (oriau swyddfa yn unig) neu [pollution-vale-rswales@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:pollution-vale-rswales@valeofglamorgan.gov.uk)

Er mwyn adrodd pryderon ynghylch llygredd oddi ar y safle cysylltwch â llinell argyfwng **Cyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 065 3000.**

Mae adran Gynllunio'r Cyngor yn delio â Chais Cynllunio yn ymwneud â thanc tân, adeiladu ac adleoli maes parcio ar safle'r gwaith, a dylai ymholiadau sy'n ymwneud â hynny gael eu cyfeirio at [planning@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:planning@valeofglamorgan.gov.uk).

### **Ble gallaf ddarllen rhagor?**

Gallwch ddarllen rhagor am [drwydded y cyfleuster, a'r amodau a osodwyd ynddi, yma.](#)